Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Hysbysiad Preifatrwydd

1.1 Mae'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (**"ADUS"**) wedi'i chynllunio i'w defnyddio pan fo angen adolygiad diogelu (h.y. adolygiad ymarfer oedolion, adolygiad ymarfer plant, adolygiad lladdiad domestig, adolygiad lladdiad iechyd meddwl neu adolygiad o laddiad ag arf ymosodol).

1.2 Bydd ADUS yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Diogelu statudol perthnasol. Mae Bwrdd Diogelu yn cynnwys partneriaid perthnasol sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y bwrdd iechyd lleol, Ymddiriedolaeth y GIG a'r gwasanaeth prawf (y **"Partneriaid Adolygu"**).

1.3 Bydd y Partneriaid Adolygu yn darparu gwybodaeth am yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad a'r adolygydd a benodwyd i gynnal yr adolygiad. Efallai y bydd trydydd partïon eraill hefyd yn cyfrannu gwybodaeth berthnasol i'r adolygiad, fel gweithwyr proffesiynol annibynnol, elusennau ac eiriolwyr.

1.4 Yn ystod yr ADUS, bydd gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â nifer o unigolion sy'n gysylltiedig â'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal ADUS yn cael ei phrosesu. Mae'r ddogfen hon (**"hysbysiad preifatrwydd")** yn nodi gwybodaeth sy'n ymwneud â sut y defnyddir gwybodaeth bersonol yn ystod ADUS a pha hawliau sydd gan unigolion mewn perthynas â'u gwybodaeth bersonol ac amrywiol faterion eraill sy'n ofynnol o dan gyfraith diogelu data.

1.5 Mae **Cyngor Gwynedd** wedi'i ddynodi fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer ADUS a bydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelu data perthnasol a bydd yn bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw unigolion sy'n ceisio arfer eu hawliau mewn perthynas â'u gwybodaeth bersonol sy'n berthnasol i'r ADUS.

1.6 Mae rhagor o wybodaeth am y broses ADUS ar gael yn y Canllawiau Statudol canlynol www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau-statudol

1.7 Yn yr adrannau isod, wrth gyfeirio at unigolion, defnyddir y termau "chi" neu "eich". Wrth gyfeirio at y Bwrdd Diogelu a/neu'r awdurdod arweiniol, defnyddir y term "ni".

## 1. Ein hymagwedd at breifatrwydd

2.1 Rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifri ac rydym am i chi deimlo'n hyderus bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo ni.

2.2 Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o bryd i'w gilydd, a hynny yn unol â'r gyfraith diogelu data sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

2.3 O dan y gyfraith diogelu data, pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn gweithredu fel rheolydd data. Yn y bôn, mae hyn yn golygu y byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut yr ydym am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol a pham.

## 2. Pa wybodaeth bersonol fydd yn cael ei defnyddio?

3.1 Ar gyfer ADUS, bydd data personol yn cael eu prosesu mewn perthynas â Gwrthrych yr Adolygiad, unrhyw dramgwyddwr/wyr neu gyflawnwr/wyr honedig ac unrhyw berson(au) sydd â chysylltiad â Gwrthrych yr Adolygiad neu'r amgylchiadau sydd wedi arwain at ymgymryd ag ADUS (**"Prif Unigolion"**).

3.2 Bydd yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw a'i gysylltiad â'r amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad. Bydd y data personol a brosesir yn cynnwys unrhyw un neu bob un o'r canlynol; enw, oedran, dyddiad geni, rhyw, cyfeiriad, manylion teuluol, data ariannol, gwybodaeth ddiogelu, hanes addysg, gwybodaeth am dai, rhif pasbort, gwybodaeth am ffordd o fyw, cenedligrwydd, statws mewnfudo, hanes cyflogaeth ac unrhyw wybodaeth arall a ddarperir yn ystod yr ADUS gan aelodau'r teulu, ffrindiau, cymuned leol, rhwydweithiau cymdeithasol, cyfryngau cymdeithasol ac arweinwyr neu gynrychiolwyr ffydd.

3.3 Bydd ADUS hefyd yn cynnwys prosesu'r data categori arbennig canlynol lle bo'n berthnasol; ethnigrwydd, hanes meddygol, gwybodaeth am iechyd meddwl, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd, a gwybodaeth am gofnod troseddol unigolyn a gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol.

## 3. Sut y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio?

*Ar gyfer y broses o adolygu a pharatoi'r Adroddiad ADUS*

4.1 Gwneir atgyfeiriad cychwynnol i'r Corff Diogelu perthnasol a fydd yn cynnwys enw gwrthrych yr adolygiad, y cyflawnwr/wyr honedig, a thystiolaeth ategol i gyfiawnhau ADUS gan gynnwys gwybodaeth am amgylchiadau'r adolygiad. Bydd y Bwrdd Diogelu yn prosesu'r data i benderfynu a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADUS.

4.2 Penodir adolygydd/adolygwyr i weithio gyda Phanel Adolygu'r Bwrdd Diogelu i ymgymryd â'r ADUS. Bydd yr wybodaeth a ddarperir i'r adolygydd/adolygwyr a'r Panel Adolygu yn ystod y broses ADUS yn cynnwys gwybodaeth bersonol a gall gynnwys data categori arbennig a/neu ddata sy'n ymwneud ag euogfarnau/troseddau o'r math a nodir yn rhif 3 uchod. Bydd yr wybodaeth bersonol yn cael ei darparu i'r adolygydd gan Bartneriaid Adolygu, cyflawnwr/wyr, gwrthrych yr adolygiad, teulu'r gwrthrych, Prif Unigolion, gweithwyr proffesiynol annibynnol, elusennau ac eiriolwyr ac unrhyw gyrff perthnasol eraill.

4.3 Bydd yr adolygydd yn cynhyrchu Adroddiad drafft ADUS (yr **"Adroddiad"**) a Chynllun Gweithredu amlinellol. Bydd yr Adroddiad yn ymdrin â gwybodaeth gefndir a gwybodaeth am yr amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal ADUS, gwybodaeth ddaearyddol, cysylltiad â'r cyflawnwr/cyflawnwyr, gwybodaeth am euogfarnau troseddol, llinell amser gryno o'r digwyddiadau arwyddocaol, manylion nodweddion gwarchodedig, gwybodaeth berthnasol arall a ddarperir yn ystod yr ADUS, cyswllt ag asiantaethau lleol, ymarfer a dysgu sefydliadol, camau gweithredu a argymhellir a gwelliannau posibl.

*Dileu manylion personol o'r Adroddiad*

4.4 Wrth baratoi'r Adroddiad drafft a'r Cynllun Gweithredu bydd unrhyw fanylion personol yn cael eu dileu a/neu bydd ffug fanylion yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r posibilrwydd o adnabod unigolion. Mae posibilrwydd o hyd, fodd bynnag, er gwaethaf y defnydd o fesurau diogelu o'r fath, y gallai unigolion y cyfeirir atynt yn yr Adroddiadau gael eu

hadnabod o hyd drwy ddulliau rhesymol sydd ar gael, yn enwedig pan fo'r digwyddiad sydd wedi sbarduno'r ADUS yn adnabyddus neu wedi cael sylw yn y cyfryngau. Felly, mae'r Adroddiad drafft a'r Adroddiad terfynol yn cael eu trin fel rhai sy'n cynnwys data personol.

4.5 Dylid cyflwyno'r Adroddiad drafft i wrthrych yr Adolygiad a/neu eu teulu a'r prif unigolion, er mwyn iddynt allu dewis ffugenw addas i'w ddefnyddio. Trafodir hefyd peidio â datgelu rhywedd.

*Cymeradwyo'r Adroddiad*

4.6 Bydd yr Adroddiad drafft yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Diogelu i'w gymeradwyo. Y Bwrdd Diogelu fydd yn gyfrifol am gywirdeb unrhyw ddata personol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad ADUS.

4.7 Yn achos lladdiad domestig, bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Banel Sicrwydd y Swyddfa Gartref.

4.8 Yn achos lladdiad ag arf ymosodol, bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref.

*Cyhoeddi'r Adroddiad*

4.9 Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd yr Adroddiad:

(a) Yn cael ei anfon i'r Hwb Cydgysylltu i'w gadw yn Storfa Ddiogelu Cymru ("**y Storfa**"). Mae'r Storfa yn defnyddio offer deallusrwydd artiffisial at ddibenion rhoi prosesau chwilio a chael gafael ar wybodaeth ar waith ar yr adroddiadau a gedwir yn y Storfa. Gellir hefyd ddefnyddio data a gedwir yn y Storfa at ddibenion hyfforddi a gwella'r offer deallusrwydd artiffisial hyn. Mae'r offer deallusrwydd artiffisial yn seiliedig ar fodelau iaith ffynhonnell agored, ac yn rhannau cydrannol o'r Storfa, caiff y modelau hyn eu cynnal yn fewnol. Nid oes unrhyw ddata o'r Storfa yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau deallusrwydd artiffisial allanol neu ar system gwmwl.

(b) Yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Diogelu yn unol â rhwymedigaethau statudol y Bwrdd Diogelu a'r Canllawiau Statudol [https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau-statudol].

(c) Yn achos lladdiad domestig, bydd yn cael ei gyhoeddi yn llyfrgell adolygiadau lladdiadau domestig y Swyddfa Gartref.

*Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru.*

4.10 Bydd hysbysiadau ADUS yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru (drwy'r Hwb Cydgysylltu).

*Cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru*

4.11 Bydd yr holl Adroddiadau yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd canfyddiadau'r Adroddiad yn cael eu defnyddio i lywio dysg ar sail Cymru gyfan drwy greu adroddiadau thematig. Bydd Defnyddwyr Cymeradwy (hy unigolion sydd wedi cofrestru i gael caniatâd i gael mynediad i'r Storfa) yn gallu chwilio'r Storfa er mwyn llywio arferion diogelu a dysg gweithwyr proffesiynol fel swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac at ddibenion ymchwil academaidd.

4.12 Mae gwybodaeth benodol am breifatrwydd mewn perthynas â sut y caiff data personol eu prosesu yn y Storfa ar gael yma.

## 5. Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

5.1 Y sail gyfreithiol yr ydym yn dibynnu arni i brosesu gwybodaeth bersonol yw:

(a) Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;

(b) mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolydd; neu

(c) mae prosesu'n angenrheidiol at ein dibenion cyfreithlon, neu at ddibenion trydydd parti, ac nid yw'r buddiannau hynny'n cael eu diystyru gan fuddiannau'r unigolyn y mae ei ddata personol yn cael eu prosesu. Ein buddiannau cyfreithlon yn hyn o beth yw darparu adolygiad o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at adolygiad ac i lywio dysg.

5.2 Pan fo data categori arbennig neu ddata am droseddau yn cael eu prosesu yng nghyd-destun ADUS, byddwn yn dibynnu ar yr amodau canlynol ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno:

(a) Bod prosesu'n angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol sy'n ymwneud â swyddogaeth sy'n unol â'r gyfraith; a

(b) Bod prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil hanesyddol. Y mesurau diogelu penodol a ddefnyddiwyd yw defnyddio ffug-fanylion mewn Adroddiadau a chyfyngu mynediad i'r Storfa i'r rhai sydd wedi cofrestru i'w ddefnyddio ac wedi llofnodi Telerau Defnyddio sy'n gwahardd adnabod unigolion.

## 6. Cadw adroddiadau

6.1 Bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Diogelu am gyfnod o 12 wythnos. Yna byddant yn cael eu cadw gan Gyngor Gwynedd a gellir eu gweld ar gais am gyfnod o bum mlynedd.

6.2 Bydd adroddiadau'n cael eu cadw yn y Storfa am gyfnod amhenodol er mwyn adeiladu ystorfa o wybodaeth y gellir ei chyrchu at ddibenion ymchwil a hyfforddiant. Fel yr amlinellwyd uchod, defnyddir ffug-fanylion yn yr Adroddiadau er mwyn diogelu unigolion rhag cael eu hadnabod a dim ond unigolion sydd wedi cofrestru a llofnodi'r Telerau Defnyddio sy'n gwahardd adnabod unigolion fydd yn cael mynediad i'r Storfa.

6.3 Bydd hysbysiadau i Lywodraeth Cymru yn cael eu dileu cyn gynted â phosibl yn dilyn cyhoeddi Adroddiad ADUS a dim hwyrach nag ar ôl 2 flynedd.

## 7. Rhannu gwybodaeth bersonol mewn perthynas ag ADUS

7.1 Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gan Bartneriaid Adolygu ac eraill gyda'r adolygydd yng nghyd-destun ADUS. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy gytundeb rhannu data a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Partner Adolygu ac eraill sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wrth rannu gwybodaeth bersonol.

7.2 Bydd yr hysbysiadau ADUS yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Yn achos lladdiad ag arf ymosodol, rhoddir gwybod i'r Swyddfa Gartref.

7.3 Cyhoeddir adroddiadau gan y Bwrdd Diogelu ar eu gwefan, byddant ar gael i Lywodraeth Cymru drwy'r Hwb Cydgysylltu ac yn cael eu cadw yn Storfa Ddiogelu Cymru. Yn achos lladdiad domestig bydd yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn llyfrgell adolygu lladdiadau domestig y Swyddfa Gartref. Yn achos lladdiad ag arf ymosodol bydd yr Adroddiad yn cael

ei gyflwyno i'r Swyddfa Gartref [Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd - Treialu adolygiadau lladdiad ag arf ymosodol - GOV.UK (www.gov.uk) – Saesneg yn unig].

7.4 Gall defnyddwyr cymeradwy gael mynediad i Storfa Ddiogelu Cymru.

7.5 Bydd yr Hwb Cydgysylltu hefyd yn adolygu Adroddiadau wedi'u cwblhau i rannu dysg, themâu, a materion cyffredin yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth a meysydd o ymarfer da ar gyfnodau penodol.

## 8. Trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r AEE

8.1 Nid ydym yn bwriadu trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol y tu allan i'r AEE. Fodd bynnag, o ran eich data personol a gedwir yn y Storfa, gweler yr wybodaeth benodol am breifatrwydd sydd ar gael yma.

## 9. Sut ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel?

9.1 Rydym yn cymryd camau amrywiol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol tra bydd yn ein meddiant, gan gynnwys [Byrddau diogelu i deilwra'r pwyntiau isod yn unol â'u hymagwedd at ddiogelwch]:

(a) Rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i amddiffyn ein seilwaith TG;

(b) Amgryptio gwybodaeth bersonol pan wedi eu storio a phan yn ei drosglwyddo;

(c) Defnyddio ffug-fanylion personol;

(d) Mesurau rheoli ac adolygu polisïau a trefniadau seibr-ddiogelwch yr Awdurdod.
(e) Darpariaeth diogelwch seibr sydd yn cynnwys haenau amddiffyn a mesurau rheoli mynediad ffurfiol.
(f) Adnodd parhaol ar gyfer monitro a gallu ymateb i rybuddion a digwyddiadau diogelwch.
(g) Gweithredu polisïau i sicrhau gweithrediadau priodol gan staff.
(h) Trefnu asesiadau 3ydd parti ar y safonau diogelwch mewn lle.

9.2 Bydd yr hysbysiad a'r adroddiad a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cael eu storio ar iShare a dim ond staff awdurdodedig gyda chliriad diogelwch fydd yn cael mynediad atynt.

## 10. Pa hawliau sydd gennych chi o dan y gyfraith diogelu data?

10.1 O dan y gyfraith diogelu data, mae gan unigolion nifer o wahanol hawliau sy'n ymwneud â defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r hawliau hynny a'n rhwymedigaethau. Mae mwy o wybodaeth am eich hawliau a'n rhwymedigaethau ar gael ar wefan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/.

| | |
|---|---|
| Mynediad | Yr hawl i gael copi o'ch data personol (hawl i gael mynediad) |
| Cywiro | Yr hawl i fynnu bod unrhyw gamgymeriadau yn eich data personol yn cael eu cywiro |

| | |
|---|---|
| Dileu | Yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i fynnu bod eich data personol yn cael eu dileu |
| Cyfyngu ar brosesu | Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i'w gwneud yn ofynnol i gyfyngu ar ddefnydd o'ch data personol (er enghraifft, os ydych yn dadlau yn erbyn cywirdeb y data) |
| Cludadwyedd data | Yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i gael gweld eich data personol mewn fformat strwythuredig, cyffredin y gellir ei ddarllen â pheiriant a/neu drosglwyddo'r data hwnnw i drydydd parti |
| Gwrthwynebu | Yr hawl i wrthwynebu i'ch data personol gael eu prosesu ar gyfer marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio) a'r hawl, o dan rai amgylchiadau, i wrthwynebu parhau i brosesu eich data personol ar sail buddiannau cyfreithlon. |
| Peidio â bod yn destun penderfyniadau unigol awtomataidd | Yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio) sy'n cael effaith gyfreithiol sy'n berthnasol i chi neu'n effeithio'n sylweddol arnoch chi |

10.2 Os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'ch hawliau, gallwch gysylltu â [*rhowch ddolen i'r wybodaeth gyswllt*].

10.3 Os ydych yn gwneud cais i arfer unrhyw un o'ch hawliau, mae gennym hawl i ofyn i chi roi unrhyw wybodaeth i ni a allai fod yn angenrheidiol i gadarnhau pwy ydych chi.

**11. Sut i gwyno**

11.1 Gobeithiwn y gall ein Swyddog Diogelu Data ddatrys unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych am ein defnydd o'ch data personol.

11.2 Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data hefyd yn rhoi i chi'r hawl i gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd yn https://ico.org.uk/concerns neu dros y ffôn: 0303 123 1113.

**12. Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

12.1 Cyhoeddwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn gyntaf ar 26/01/2026

12.2 Efallai y byddwn yn diweddaru ein polisi preifatrwydd o bryd i'w gilydd. Bydd fersiynau wedi'u diweddaru o'n hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## 3. Sut mae cysylltu â ni

13.1 Cysylltwch ag ein Swyddog Diogelu Data drwy e-bost os oes gennych unrhyw gwestiynau am y polisi preifatrwydd hwn neu'r data personol sydd gennym amdanoch.

13.2 Dyma’r manylion cyswllt: SwyddogDiogeluData@gwynedd.llyw.cymru